Pecyn Dogfen Cyhoeddus

| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd | Dyddiad: | 20 Mawrth 2023 |
| | | Rhif Union: | 01824 712589 |
| | | ebost: | democrataidd@sirddinbych.gov.uk |

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD, DYDD GWENER, 24 MAWRTH 2023** am **10.00 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN A THRWY GYNHADLEDD FIDEO**.

Yn gywir iawn

G Williams
Swyddog Monitro

**AGENDA**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 PENODI CADEIRYDD AR GYFER Y CYFARFOD**

I benodi Cadeirydd i gadeirio y cyfarfod heddiw.

**4 MATERION BRYS**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**5 PENODI IS-GADEIRYDD**

Penodi Is-gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar gyfer y flwyddyn ddinesig 2022 – 2023, gan fod y penodiad hwn wedi'i ohirio yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor. Yr Is-Gadeirydd penodedig i ddal y swydd tan y cyfarfod cyntaf y Pwyllgor ym mlwyddyn ddinesig 2023 – 2024 (ar 29 Medi 2023).

**6 COFNODION** (Tudalennau 3 - 8)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiadd a gynhaliwyd ar 30 Medi 2022 (copi ynghlwm).

**7 ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL 2023 - 2024** (Tudalennau 9 - 34)

I ystyried adrodiad gan y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (copi ynghlwm) ynghylch penderfyniadau'r Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2023 - 2024 mewn perthynas â thaliadau i aelodau ac aelodau cyfetholedig.

**8 ADNODDAU AR GYFER CRAFFU** (Tudalennau 35 - 38)

Ystyried adroddiad gan y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (copi ynghlwm). Pwrpas yr adroddiad yw amlinellu newidiadau i'r trefniadau cefnogi ar gyfer y swyddogaeth Graffu.

**9 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL** (Tudalennau 39 - 44)

Ystyried adroddiad gan y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd am Raglen Gwaith y Pwyllgor a materion cysylltiedig (copi ynghlwm).

**MEMBERSHIP**

**Y Cynghorwyr**

Michelle Blakeley-Walker
Ellie Chard
Karen Edwards
Chris Evans
Hugh Evans
Justine Evans
Brian Jones
Delyth Jones
Diane King
Cheryl Williams
Elfed Williams

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

**PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, Rhuthun a thrwy cyfrwng fideo, Dydd Gwener, 30 Medi 2022 am 10.00 am.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr Karen Edwards, Hugh Evans, Justine Evans, Martyn Hogg a Cheryl Williams

**HEFYD YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd Julie Matthews, Aelod Arweiniol dros Strategaeth Gorfforaethol, Polisi a Chydradoldebau.

Y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes (GW), Rhelowr Gwasanaethau Democrataidd (SP) a Gweinyddwr Pwyllgor / Cyfarfod (RTJ)

**1 YMDDIHEURIADAU**

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Delyth Jones a Diane King.

**2 PENODI CADEIRYDD I'R CYFARFOD**

Ystyriodd y Pwyllgor benodi aelod i gadeirio cyfarfod heddiw.

**PENDERFYNWYD – fod y Pwyllgor yn penodi'r Cynghorydd Hugh Evans fel Cadeirydd ar gyfer cyfarfod heddiw.**

**3 PENODI IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD – fod penodi Is-gadeirydd ar gyfer y Pwyllgor yn cael ei ohirio tan ar ôl i'r Cyngor benodi Cadeirydd ar gyfer y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.**

**4 DATGANIADAU O FUDDIANT**

Ni chafodd unrhyw gysylltiad ei ddatgan.

**5 MATERION BRYS**

Ni chodwyd unrhyw fater brys.

**6 COFNODION**

Cafodd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar 28 Ionawr 2022 eu cyflwyno.

Materion yn codi

Eitem 6, Rôl y Cefnogwr Amrywiaeth. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes y byddai adroddiad ar aelodau sy'n gefnogwyr yn cael ei ystyried gan y Cyngor llawn.

**PENDERFYNWYD - cadarnhau cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar 28 Ionawr 2022 fel cofnod cywir.**

## 7 AROLWG AMSERIAD CYFARFODYDD 2022

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd adroddiad ar arolwg Amseriad Cyfarfodydd 2022 (a ddosbarthwyd yn flaenorol). Amlinellodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd y gofynion statudol o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 i gynnal arolwg i geisio barn aelodau etholedig ynglŷn ag amser cyfarfodydd y Cyngor.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor mai un o nodau'r Mesur yw hyrwyddo a chefnogi aelodaeth awdurdodau lleol. Gall yr amseroedd pan gaiff cyfarfodydd eu cynnal fod yn ffactor allweddol o ran galluogi aelodau presennol y Cyngor i'w mynychu a gallai gael effaith ar p'run ai yw ymgeiswyr posibl yn sefyll am etholiad. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd y dylai awdurdodau lleol o dan y Mesur gynnal arolwg gyda'u haelodau o leiaf unwaith y tymor.

Cyfeiriodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd aelodau at gwestiynau'r arolwg drafft sydd wedi eu hatodi fel atodiad i'r adroddiad.

Trafododd yr Aelodau'r pwyntiau canlynol:

- Y posibilrwydd y gallai amser y cyfarfodydd wella hygyrchedd y cyfarfodydd a, thrwy fod yn atyniadol i ymgeiswyr cyngor posibl, gwella amrywiaeth aelodau yn siambr y cyngor.
- Roedd rhai cynghorwyr yn profi anawsterau gyda chael amser i ffwrdd o'r gwaith i fynychu cyfarfodydd a gallai cwestiynau'r arolwg drafft gasglu gwybodaeth werthfawr yn ymwneud â hyn.
- Roedd rhai o'r aelodau yn teimlo fod cyfarfodydd hybrid yn ddelfrydol gan gynnig cyfleustra cyfarfodydd rhithiol gyda'r profiad o gyfarfodydd wyneb yn wyneb, a hynny yn unol ag anghenion y rhai oedd yn mynychu a'r hyn maent yn ei ffafrio.
- Yr effaith posibl ar staff yn mynychu cyfarfodydd gyda'r nos, a pha safbwyntiau allai fod gan y swyddogion hynny.
- Bwriad y Cyngor i osod mwy o offer cyfarfodydd hybrid ym mhrif swyddfeydd y Cyngor.

Cytunodd y Pwyllgor y dylai'r arolwg gynnwys cwestiwn yn ymwneud ag unrhyw anawsterau o ran cael amser o'r gwaith i fynychu cyfarfodydd.

**PENDERFYNWYD - yn ddibynnol ar gynnwys cwestiwn yn ymwneud â'r anawsterau a brofir yn cael amser o'r gwaith i fynychu cyfarfodydd, fod**

**cwestiynau'r arolwg sydd wedi eu hatodi i'r adroddiad yn cael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor.**

**8 HYFFORDDIANT AELODAU**

Cyflwynodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad ar Hyfforddiant a Datblygu Aelodau (a ddosbarthwyd yn flaenorol). Diben yr adroddiad oedd i ddarparu gwybodaeth am y rhaglen hyfforddi a datblygu aelodau ar ôl yr etholiad a cheisio safbwyntiau'r Pwyllgor ar gynnwys a chyfeiriad y rhaglen ar gyfer y dyfodol.

Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd fod rhaglen o ymsefydlu, hyfforddiant a datblygu i aelodau wedi dechrau yn syth ar ôl etholiadau'r Cyngor ym Mai 2022. Mae'r sesiynau a ddarparwyd hyd yma wedi cynnwys ymsefydliad aelodau newydd ac aelodau sydd wedi dychwelyd drwy fynd dros y ddarpariaeth TGCh, ymgyfarwyddo â gwasanaethau a gwybodaeth ynglŷn ag ymgymryd â rolau penodol fel aelodau (er enghraifft hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad, eistedd ar y Pwyllgor Cynllunio neu weithredu fel 'rhiant corfforaethol').

Ystyriodd y Pwyllgor y gwaith a wnaed yn ddiweddar i sicrhau fod e-ddysgu ar gael i aelodau a'r modiwlau e-ddysgu a oedd wedi eu paratoi. Hefyd adolygodd aelodau bolisi'r Cyngor blaenorol ar hyfforddiant 'gorfodol' a'r Adolygiadau Datblygu Personol sydd ar gael o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. Mewn ymateb i gwestiwn cadarnhaodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd y byddai Arweinwyr Grŵp yn cael eu cefnogi pe gofynnai eu haelodau iddynt i ymgymryd â'u Hadolygiadau Datblygu Personol.

Dywedodd y Cynghorydd Hugh Evans fod gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru nawr gyllideb hyfforddi i gefnogi aelodau awdurdod lleol. Roedd y gyllideb hyfforddi wedi ei lleihau'n flaenorol fel rhan o'r toriadau llymder.

Nododd yr Aelod Arweiniol gyda chyfrifoldeb dros hyfforddiant a datblygu aelodau, y Cynghorydd Julie Matthews, fod yr adroddiad yn ymdrin â'r materion hyfforddiant a datblygiad perthnasol.

**PENDERFYNWYD - fod y Pwyllgor yn nodi'r adroddiad ar Hyfforddiant a Datblygu Aelodau.**

**9 RÔL Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd adroddiad ar Rôl y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd (a ddosbarthwyd yn flaenorol). Diben yr adroddiad oedd i amlinellu dyletswyddau a phwerau statudol y pwyllgor a oedd yn amserol gan mai cyfarfod heddiw oedd cyfarfod cyntaf y pwyllgor ers yr etholiadau.

Hysbysodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd y pwyllgor fod gan bob cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yr oedd ei ddyletswyddau statudol yn cynnwys adolygu, a lle bo hynny'n briodol adrodd ar ddigonolrwydd staff, gofod ac adnoddau eraill i gyflawni swyddogaethau'r gwasanaethau democrataidd.

Nododd yr Aelodau gylch gwaith y pwyllgor.

Yn ystod y drafodaeth i ddilyn cododd aelodau fater penodiadau cynghorwyr i gyrff allanol (h.y. cynghorwyr yn cael eu penodi gan y Cyngor i eistedd ar grwpiau a sefydliadau allanol) a mecanweithiau adrodd. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes, fod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn fforwm priodol i aelodau adrodd ar faterion sy'n codi o'u haelodaeth o gyrff allanol. Ar hyn o bryd fodd bynnag nid oedd yna fecanwaith sefydledig na threfniadau cefnogi ar gyfer adborth o gyrff allanol a rhai paneli mewnol. Dywedwyd wrth Aelodau fod rhaid i rai o'r cynghorwyr a benodwyd i gyrff allanol weithredu ac adrodd er budd y corff allanol (er enghraifft fel ymddiriedolwr) ac nid er budd y Cyngor.

Holodd y Pwyllgor ynglŷn â'r effaith yn sgil Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Trafododd Aelodau yn gryno y newidiadau a wnaed gan y Ddeddf i aelodaeth o Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor, hyrwyddo cyfranogiad cyhoeddus a mynediad i lywodraeth leol a'r etholiadau llywodraeth leol.

Yn nhermau darpariaethau'r Ddeddf yn ymwneud ag ymddygiad aelodau, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod y Ddeddf yn gosod dyletswyddau newydd ar arweinwyr y grwpiau gwleidyddol i hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan aelodau o'r grŵp.

Holodd y Cynghorydd Hogg am y diffiniad o grŵp gwleidyddol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod grŵp gwleidyddol yn cael ei ffurfio pan fo dau neu fwy o gynghorwyr yn arwyddo ac yn darparu hysbysiad ysgrifenedig yn datgan eu dymuniad i gael eu hystyried fel grŵp gwleidyddol (yn unol â Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau a Grwpiau Gwleidyddol) 1990).

**PENDERFYNWYD –**

**(a) Bod y Pwyllgor yn nodi dyletswyddau a phwerau statudol y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.**

**(b) Cyflwyno adroddiad ar ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 o fewn cylch gwaith y Pwyllgor i gyfarfod y Pwyllgor yn y dyfodol; a**

**(c) Dosbarthu rhestr o'r penodiadau i Gyrff Allanol i aelodau o'r Pwyllgor.**

## 10 GOFAL PERSONOL A DIOGELWCH I AELODAU

Cyflwynodd y Cynghorydd Julie Matthews, aelod arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol, adroddiad ar Ofal Personol a Diogelwch i Aelodau (a ddosbarthwyd yn flaenorol).

Hysbyswyd y Pwyllgor o ganfyddiadau'r Comisiwn Etholiadol ar ôl etholiadau llywodraeth leol Mai 2022. Roedd y Comisiwn wedi canfod fod cyfran nodedig o

ymgeiswyr a oedd wedi ymateb i'w harolwg wedi profi rhyw ffurf o gamdriniaeth neu fygythiad. Dywedwyd wrth Aelodau fod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) yn argymell i aelodau fod yn ymwybodol o'r peryglon pan maent er enghraifft yn:

- Ymweld â phobl yn eu cartrefi
- Derbyn pobl sy'n galw i gartref y cynghorydd
- Cynnal cymorthfeydd
- Teithio, p'run ai gyda chludiant cyhoeddus neu breifat, a phan maent ar eu pen eu hunain
- Cyfathrebu ar-lein

Roedd adroddiad y Pwyllgor heddiw'n cynnwys nifer o ddolenni i adnoddau'n ymwneud â diogelwch personol ar gyfer aelodau y mae CLILC yn cyfeirio atynt a hefyd cyfeirio at argaeledd y gefnogaeth a'r cyngor ar ddiogelwch personol o fewn y Cyngor.

Trafododd Aelodau eu profiadau a'u canfyddiadau o'r gamdriniaeth a'r bygythiadau a anelir at ymgeiswyr ac aelodau etholedig. Un canlyniad i hyn fu newidiadau yn y gyfraith a oedd yn flaenorol wedi ei gwneud yn ofynnol i gyfeiriadau cartref ymgeiswyr ac aelodau i gael eu cyhoeddi.

Awgrymodd yr aelod arweiniol y gallai sesiwn hyfforddi i aelodau, yn ymgorffori'r adnoddau a amlygir yn adroddiad y Pwyllgor ac a osodir o fewn cyd-destun Sir Ddinbych, fod yn ddefnyddiol. Cymeradwyodd y Pwyllgor yr awgrym.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol at Bolisi Gweithwyr sy'n Gweithio ar eu Pen eu Hunain y Cyngor fel ffynhonnell bosibl o wybodaeth berthnasol ar gyfer aelodau.

**PENDERFYNWYD - yn unol â'r materion a godwyd uchod, fod y Pwyllgor yn argymell fod sesiwn hyfforddi ar gyfer aelodau o'r Cyngor ar Ofal Personol a Diogelwch yn cael ei gynnal.**

**11 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL**

Cyflwynodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor (a ddosbarthwyd yn flaenorol).

Trafododd Aelodau y broses ar gyfer diwygio'r rhaglen a chadarnhawyd y gallai aelodau pwyllgor anfon ceisiadau yn uniongyrchol at Gadeirydd y Pwyllgor neu Reolwr y Gwasanaethau Democrataidd. Roedd y pwyllgor yn gallu diwygio ei raglen gwaith i'r dyfodol ym mhob cyfarfod, o dan yr eitem sefydlog yn y rhaglen sef 'Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol'.

Cytunodd y Pwyllgor y dylai swyddogion cefnogi, y tu allan i gyfarfodydd y pwyllgor, gydgysylltu gyda Chadeirydd y Pwyllgor ar eitemau a awgrymir ar gyfer y rhaglen.

Yn ogystal â'r eitem gynharach ar y rhaglen ar rôl y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, cyfeiriodd aelodau at gylch gwaith y pwyllgor. Y rôl statudol yw i adolygu pa mor ddigonol yw'r ddarpariaeth gan yr awdurdod o ran staff, gofod ac

adnoddau eraill i gyflawni swyddogaethau gwasanaethau democrataidd, ac i lunio adroddiadau a gwneud argymhellion i'r awdurdod mewn perthynas â'r ddarpariaeth honno. Fe allai'r Pwyllgor benderfynu sut i arfer y swyddogaethau hyn.

**PENDERFYNWYD – nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor.**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 24 Mawrth 2023 |
| **Aelod Arweiniol** | Y Cynghorydd Julie Matthews, Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Lisa Jones, Pennaeth Dros Dro - Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd |
| **Awdur yr adroddiad** | Steve Price, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| **Teitl** | Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2023-2024 |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad yn sôn am adroddiad blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (y 'Panel') ar gyfer 2023 - 2024.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. I gynghori ynghylch penderfyniadau'r Panel ('penderfyniadau') ar gyfer 2023 - 2024 mewn perthynas â thaliadau i aelodau ac aelodau cyfetholedig.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor yn nodi penderfyniadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2023 - 2024 mewn perthynas â thalu cyflogau a thaliadau i aelodau cyfetholedig.

## 4. Manylion yr adroddiad

### Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol

4.1. Sefydlwyd y Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn 2008. Cafodd cylch gwaith a swyddogaethau'r Panel eu hymestyn ym Mesur Llywodraeth Leol

(Cymru) 2011.  Mae cylch gwaith y Panel yn cynnwys cynghorwyr, aelodau eraill o awdurdodau parc cenedlaethol, awdurdodau tân ac achub Cymru a chynghorau tref a chymuned, yn ogystal â chynghorau sir a bwrdeistref sirol. Gall y Panel bennu swm y tâl y caiff awdurdod ei roi i aelodau, a'r dyletswyddau a chyfrifoldebau a all wneud cynghorwyr yn gymwys i dderbyn taliadau.

4.2. Mae'n ofynnol i'r Panel gynhyrchu adroddiad blynyddol yn nodi lefelau tâl yr aelodau ar gyfer gwahanol ddyletswyddau a chyfrifoldebau ar gyfer blwyddyn y Cyngor i ddod. Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol weithredu argymhellion y Panel. Mae adroddiad blynyddol 2023 - 2024 ynghlwm fel atodiad 1.

## Yr Adroddiad Blynyddol

4.3. Mae'r Panel wedi ystyried strwythur eu hadroddiadau blynyddol a sut allent gael eu gwneud yn fwy hygyrch. Daeth i'r casgliad bod mwyafrif y wybodaeth a gyhoeddir yn yr adroddiadau blynyddol yn dyblygu gwybodaeth o'r blynyddoedd blaenorol, fel arfer heb unrhyw newid sylweddol. Ar gyfer yr adroddiad eleni, penderfynodd y Panel ganolbwyntio ar y newidiadau a wnaed ac mae mwyafrif y cynnwys a nodwyd yn yr adroddiadau blaenorol wedi cael ei dynnu a'i osod ar wefan y Panel.

4.4. Mae'r Panel o'r farn nad yw cynnal gwerthoedd democrataidd llywodraeth leol yn ddigost.  Mae tâl a ariennir yn gyhoeddus ar gael i annog amrywiaeth o bobl fodlon a medrus i gymryd rhan mewn llywodraeth leol, drwy eu swyddogaethau aelodau etholedig neu gyfetholedig.

## Cyflog Sylfaenol ar gyfer Aelodau Etholedig

4.5. Mae'r Panel wedi penderfynu ar gyfer y flwyddyn ariannol 1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2024 bydd y cyswllt rhwng cyflog sylfaenol cynghorwyr a chyflog cyfartalog trigolion eu hetholaeth yn cael ei gadw. Bydd y cyflog sylfaenol yn cael ei alinio gyda thair rhan o bump o enillion Cymru gyfan 2021, y ffigwr diweddaraf Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion ar gael i'r Panel. Felly bydd y cyflog sylfaenol yn cael ei osod ar £17,600 ac yn cynrychioli cynnydd o £800 neu 4.76% yn y cyflog sylfaenol ar gyfer holl aelodau etholedig.

## Cyflogau Uwch a Dinesig

4.6. Mae'r ffigyrau ar gyfer cyflogau uwch a dinesig wedi'u nodi yn yr adroddiad blynyddol yn cynnwys yr elfen cyflog sylfaenol.

4.7. Mae'r taliadau ar gyfer rolau cyflog uwch a dinesig wedi'u bandio; gyda Band 1 yn cynnwys yr Arweinydd a Dirprwy Arweinydd y Cyngor, a gweddill aelodau'r Cabinet ym Mand 2. Mae bandiau'r Cabinet wedi'u rhannu ymhellach yn ôl meintiau'r cyngor gyda lefelau cyflog i gyd-fynd. Mae Cyngor Sir Ddinbych yn Gyngor Grŵp C (gweler tabl 1 yr adroddiad blynyddol).

4.8. Mae cyflogau uwch ar gyfer y Cabinet wedi derbyn y cynnydd llawn o 4.76% h.y. mae elfen cyflog sylfaenol a'r rôl uwch (dyletswyddau Cabinet) wedi cynyddu 4.76%. Mae elfen rôl cadeiryddion pwyllgorau a Chadeirydd y Cyngor (Band 3) wedi cynyddu 3.15%, ond fel y crybwyllir uchod, mae'r elfen cyflog sylfaenol wedi codi 4.76%. Mae'r cyflog dinesig ar gyfer Is-gadeirydd y Cyngor yn derbyn y cynnydd i'r cyflog sylfaenol yn unig.

## Aelodau Lleyg a Chyfetholedig

4.9 Nid yw lwfans presenoldeb ar gyfer aelodau lleyg neu gyfetholedig wedi newid. Rhaid i awdurdodau lleol dalu ffi ddyddiol neu hanner diwrnod penodedig i aelodau cyfetholedig sydd â hawliau pleidleisio, yn ôl yr ymrwymiad amser sydd ynghlwm. Mae cyfarfodydd sy'n gymwys i dderbyn taliadau ffioedd yn cynnwys pwyllgorau, gweithgorau, rhag-gyfarfodydd gyda swyddogion, hyfforddiant a phresenoldeb mewn cynadleddau ac unrhyw gyfarfod ffurfiol y mae gofyn i aelodau cyfetholedig fynychu.

4.10 Mae'r Panel yn caniatáu i amser paratoi rhesymol ar gyfer cyfarfodydd ac amser teithio i ac o gyfarfodydd, gael eu cynnwys yn yr hawliadau gan aelodau cyfetholedig. Gall awdurdodau lleol benderfynu ar yr uchafswm o ddyddiau y gall aelodau cyfetholedig dderbyn tâl amdanynt mewn blwyddyn.

4.11 Mae rheolau'r Panel yn caniatáu i bob cyngor gael elfen o ddisgresiwn lleol o ran sut caiff aelodau cyfetholedig dâl cydnabyddiaeth. Nid yw Sir Ddinbych wedi gosod cap ar y nifer o ddyddiau y gellir eu hawlio ar gyfer taliad, ond mae'n defnyddio cyfradd 'diwrnod llawn' fel yr uchafswm y gellir ei hawlio am fynychu un cyfarfod neu ddigwyddiad. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw amser paratoi a theithio. Mae'r ffi hanner diwrnod yn cael ei dalu am unrhyw ymrwymiad amser cymwys o hyd at 4 awr.

4.12 Rhaid i bob awdurdod sicrhau, trwy ei Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, bod ei holl aelodau cyfetholedig neu aelodau lleyg yn cael cymaint o gymorth ag sy'n angenrheidiol i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol. Dylai cefnogaeth o'r fath fod heb gost i'r aelod unigol. Mae darparu cyfleoedd hyfforddi priodol ar gyfer aelodau cyfetholedig wedi cael ei nodi fel elfen bwysig o'r cymorth hwn.

### Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned

4.13 Mae adroddiad blynyddol y Panel yn nodi'r strwythur taliadau ar gyfer cynghorau dinas, tref a chymuned ac mae'r Panel wedi gwneud rhai newidiadau, gan gynnwys ad-dalu aelodau am gost nwyddau traul swyddfa. Mae Tabl 2 yr adroddiad blynyddol yn nodi'r taliadau gofynnol.

4.14 Mae copi o adroddiad blynyddol y Panel wedi cael ei anfon i glercod cyngor dinas, tref a chymuned.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Mae'r adroddiad yn amlinellu'r penderfyniadau a wneir gan y Panel ac nid yw ynddo'i hun yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Mae adroddiad blynyddol y Panel ar y cyfan yn parhau â'r strwythur taliadau blaenorol. Mae cynnydd y Panel mewn cyflogau sylfaenol, uwch a dinesig yn gyfwerth â chynnydd o £46,294 neu 4.47% ar gyfer 2023 - 2024. Mae'r costau sy'n gysylltiedig â gwaith yr aelodau cyfetholedig sy'n pleidleisio yn dibynnu ar y swm o fusnes swyddogol mae'n ofynnol iddynt gyflawni, ac unrhyw newidiadau mae'r Cyngor yn ei wneud i reolau taliadau ymrwymiad amser.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Gwneir yr adroddiad hwn yn unol â rhwymedigaethau statudol a phenderfyniadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Nid oes angen Asesiad o'r Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi’u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1 Mae’r Panel yn ymgynghori’n genedlaethol ar gynnwys drafft pob adroddiad blynyddol.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Nid oedd angen datganiad ar gyfer yr adroddiad hwn.

## 10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae’n rhaid i fwyafrif y taliadau (cyflogau sylfaenol, arweinydd grŵp yr wrthblaid fwyaf, aelodau cyfetholedig gyda hawliau pleidleisio) a nodir yn yr adroddiad blynyddol fod ar gael ac mae cyllideb wedi'i ddyrannu i dalu am y taliadau.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Adran 111 Deddf Llywodraeth Leol 1972; a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Panel Annibynnol Cymru
ar Gydnabyddiaeth Ariannol
Independent Remuneration
Panel for Wales

# Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol

## Adroddiad Blynyddol

Chwefror 2023



OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG46975, ISBN digidol 978-1-80535-447-5
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

Adroddiad Blynyddol 2023 i 2024


| Adran | Rhif y dudalen |
|---|---|
| 1. Cyflwyniad | 2 |
| 2. Rôl a Chyfrifoldebau'r Panel | 4 |
| 3. Trafodaethau a Phenderfyniadau | 6 |
| 4. Ymgynghori a Chrynodeb o Benderfyniadau | 15 |

## Adran 1: Cyflwyniad

Dyma Adroddiad Blynyddol Terfynol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, sy’n pennu’r Penderfyniadau ar gyflogau, treuliau a buddiannau ar gyfer aelodau etholedig prif gynghorau, cynghorau cymuned a thref, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub i'w gweithredu o fis Ebrill 2023 ymlaen.

Dyma fy Adroddiad cyntaf fel Cadeirydd y Panel, ar ôl cael fy mhenodi ym mis Mehefin 2022. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i John Bader, y cyn-gadeirydd, am ei wasanaeth dros nifer o flynyddoedd. Fe arweiniodd y Panel drwy ddau ddarn pwysig o waith y llynedd - Adolygiad Annibynnol 10 Mlynedd o'r Panel, a’r gwaith o adfer y cysylltiad rhwng cyflogau aelodau etholedig ac enillion cyfartalog yng Nghymru. Diolch hefyd i Joe Stockley am ei wasanaeth ac mae'n bleser gen i gyhoeddi bod Bev Smith wedi’i phenodi ym mis Mehefin eleni. Mae Saz Willey, yr Is-Gadeirydd, a Ruth Glazzard wedi parhau i arwain gwaith y Panel yn ystod y cyfnod hwn o newid ac rwy'n diolch iddyn nhw am y gefnogaeth maen nhw wedi rhoi i Bev a minnau, fel aelodau newydd. Gadawodd Ruth Glazzard y Panel ar ddiwedd 2022, pan ymgymerodd â Phenodiad Cyhoeddus newydd. Mae’r Uned Cyrff Cyhoeddus wrthi’n recriwtio aelod newydd i’r Panel.

Eleni, mae'r Panel wedi parhau i ganolbwyntio ar argymhellion yr Adolygiad Deng Mlynedd a'u gweithredu. Mae pedair elfen allweddol i'r gwaith hwn – adolygu'r ffordd rydym ni'n gweithio, gosod strategaeth dair blynedd i'r panel, gwella sut rydym ni'n cyfathrebu ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ac adeiladu sylfaen dystiolaeth gadarn i lywio penderfyniadau.

Rydym wedi dechrau ar yr Adolygiad Effeithiolrwydd a argymhellir o'r ffordd rydym yn gweithio ac wedi dechrau datblygu ein strategaeth tymor hwy gyda Diwrnodau Datblygu Panel ym mis Awst a mis Chwefror. Rydym wedi cytuno mai ein cenhadaeth yw cyflwyno fframwaith gwobrwyo teg ac atebol i Gymru, i gefnogi cymunedau fel bod eu lleisiau’n cael eu clywed o fewn ein cyrff democrataidd lleol. Byddwn yn defnyddio'n harbenigedd a'n proffesiynoldeb i feithrin partneriaethau cynaliadwy, dibynadwy, i lywio'n gwaith a gwneud y newidiadau sydd eu hangen ar Gymru.

Ein nod yw gwella'r ffordd rydym yn cyfathrebu ac yn ymgysylltu â'n rhanddeiliaid uniongyrchol a'r cyhoedd. Fel cam cyntaf rydym nawr yn cyhoeddi crynodeb o'n cyfarfodydd misol ar ein gwefan, ond yn cydnabod bod llawer mwy i'w wneud. Ein nod yw gwella hygyrchedd a rhwyddineb ein gwefan a'i datblygu'n adnodd mwy defnyddiol i bobl. Rydym yn bwriadu iddi fod yn storfa hawdd ei defnyddio o wybodaeth am ein Penderfyniadau, a, gan adeiladu ar ein tudalen Cwestiynau Cyffredin cyfredol, datblygu ein Canllawiau ar sut y dylid cymhwyso pob penderfyniad.

Er mai corff annibynnol ydym ni, byddwn yn parhau i gydweithio â rhanddeiliaid allweddol sy’n ymwneud â hyrwyddo cyfranogiad mewn democratiaeth leol. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru waith ymchwil yn edrych ar y rhwystrau i sefyll ar gyfer swyddi etholedig a rôl newidiol y cynghorydd, a chynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau ar draws Cymru i dynnu sylw at y canfyddiadau a’u trafod.

Fe wnaethom gymryd rhan weithredol yn y digwyddiadau hyn, gan gynnal seminarau ar gydnabyddiaeth ariannol a rôl newidiol cynghorwyr lleol. Croesawyd y cyfle i rannu gwybodaeth, profiad, ac arfer gorau ar draws ystod o bynciau ac yn arbennig i ganolbwyntio ar ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o sut y gallwn weithredu ar y cyd i gynyddu amrywiaeth mewn democratiaeth leol.

Mae'r Panel wedi penderfynu y bydd eleni'n flwyddyn o atgyfnerthu. Cafodd newidiadau mawr eu rhoi ar waith y llynedd, a chytunwyd ar godiad sylweddol yn lefelau cyflog. Hoffem ganiatáu amser i Benderfyniadau'r llynedd ymwreiddio ac i ganiatáu i'r Panel barhau i ddatblygu sylfaen ymchwil a thystiolaeth i lywio penderfyniadau'r dyfodol a symud i gylch cynllunio mwy hirdymor. Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu'r penderfyniad hwnnw.

Yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, rydym wedi bod yn ystyried strwythur ein hadroddiadau a sut y gallwn eu gwneud yn fwy hygyrch i bawb. Daethom i'r casgliad bod llawer o'r wybodaeth a gyhoeddwyd yn efelychu blynyddoedd blaenorol, yn aml heb newid sylweddol. Ar gyfer yr adroddiad hwn penderfynom ganolbwyntio ar y newidiadau a wnaed o ganlyniad i'r cynigion. Rydym felly wedi penderfynu y bydd mwyafrif y cynnwys a nodir mewn adroddiadau blaenorol yn cael ei ddileu o'r adroddiad a'i osod ar wefan y Panel. Byddwn yn gwneud trefniadau ar gyfer pobl nad ydynt yn gallu mynd ar y wefan.

Mae'r newid hwn wedi lleihau maint yr adroddiad yn sylweddol a'i wneud yn fwy hylaw i lywio drwyddo. Mae'r dull hwn hefyd yn cyd-fynd â'n hymdrechion i barchu'r heriau sy'n ein hwynebu wrth ddiogelu ein planed.

Fe wnaethom gynnwys arolwg ar-lein am y tro cyntaf yn yr Adroddiad Blynyddol Drafft eleni a hoffem ddiolch i bawb wnaeth dreulio amser yn ei lenwi, neu'n anfon ymatebion ysgrifenedig i'n cwestiynau ymgynghori a sylwadau ar yr adroddiad Drafft.

**Aelodau'r Panel**
Frances Duffy, Cadeirydd
Saz Willey, Is-gadeirydd
Bev Smith

Ceir gwybodaeth fanwl am yr aelodau ar y wefan: [Gwefan y Panel]

## Adran 2: Rôl a chyfrifoldebau'r Panel

**Rôl y Panel**

Mae'r Panel yn gyfrifol am bennu'r lefelau a'r trefniadau ar gyfer tâl aelodau'r sefydliadau canlynol.

- Prif gynghorau – cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol
- Cynghorau cymuned a thref
- Awdurdodau Parciau Cenedlaethol
- Awdurdodau Tân ac Achub
- Cyd-bwyllgorau Corfforedig

Mae'r Panel yn gorff annibynnol ac mae'n gallu gwneud penderfyniadau am y canlynol:

- Y strwythur cyflog sy'n pennu tâl yr aelodau
- Y math o lwfansau a natur y lwfansau hynny sydd i'w talu i aelodau
- P'un a yw'r taliadau'n orfodol neu'n caniatáu lefel o hyblygrwydd lleol
- Trefniadau o ran absenoldeb teuluol
- Trefniadau ar gyfer monitro cydymffurfiaeth â phenderfyniadau'r Panel

Mae'r Panel yn sefydliad annibynnol ac mae'n ofynnol, yn ôl y gyfraith, i'r sefydliadau a restrir uchod weithredu'r penderfyniadau a wnânt. Nid yw'n ofynnol gan y Panel bod prif gynghorau yn pleidleisio ar y Penderfyniadau. Mae'r panel hefyd yn rhoi Canllawiau ar sut y dylid cymhwyso ei Benderfyniadau, a rhaid i'r holl gynghorau ystyried y Canllawiau hyn. Mae'r canllawiau presennol wedi'u cynnwys yn Adroddiad Blynyddol 2022/2023, Atodiad 2 "Y Rheoliadau". Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol o hyd.

Mae'r Panel hefyd yn ymgynghorai ar gyfer newidiadau arfaethedig i dâl Prif Weithredwyr prif gynghorau.

**Egwyddorion**

Yn sail i waith y Panel mae set o egwyddorion sy'n llywio ei ddull gweithredu, ei fethodoleg a sut y mae'n gwneud penderfyniadau, sef:

- **Cynnal ymddiriedaeth a hyder** – Mae dinasyddion yn iawn i ddisgwyl bod pawb sy'n dewis gwasanaethu mewn awdurdodau lleol yn cynnal yr ymddiriedaeth gyhoeddus drwy gofleidio'r gwerthoedd a'r foeseg ymhlyg mewn gwasanaeth cyhoeddus o'r fath.

- **Symlrwydd** – Mae'r Fframwaith yn glir ac yn ddealladwy.

- **Tâl Cydnabyddiaeth** – Mae'r Fframwaith yn darparu ar gyfer taliad i aelodau awdurdodau sy'n gyfrifol am wasanaethu eu cymunedau. Ni ddylai lefel y taliad fod yn rhwystr i ymgymryd â'r swydd neu barhau yn y swydd.

- **Amrywiaeth** – Mae democratiaeth yn cael ei chryfhau pan fydd aelodau'r awdurdodau yn adlewyrchu'n ddigonol gyfansoddiad demograffig a diwylliannol y cymunedau y mae awdurdodau o'r fath yn eu gwasanaethu.

- **Atebolrwydd** - Mae gan drethdalwyr a dinasyddion yr hawl i dderbyn gwerth am arian o arian cyhoeddus sydd wedi'i ymrwymo i fod yn dâl i'r bobl sy'n cael eu hethol, eu penodi neu eu cyfethol i wasanaethu er budd y cyhoedd.

- **Tegwch** - Bydd modd cymhwyso'r Fframwaith yn gyson i aelodau o bob awdurdod o fewn cylch gwaith y Panel fel modd o sicrhau bod lefelau tâl yn deg, yn fforddiadwy ac yn dderbyniol ar y cyfan.

- **Ansawdd** - Mae'r Panel yn cydnabod bod y cyfuniad cymhleth o lywodraethu, craffu a dyletswyddau rheoleiddio sy'n ddyletswydd ar aelodau yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gymryd rhan mewn proses o wella ansawdd yn barhaus.

- **Tryloywder** - Mae bod yn dryloyw ynghylch tâl aelodau er budd y cyhoedd.

## Adran 3: Crynodeb o Drafodaethau a Phenderfyniadau

### Methodoleg

Bob blwyddyn mae'r Panel yn ymgysylltu ag aelodau'r cyrff y mae'n pennu lefelau tâl ar eu cyfer, swyddogion o fewn y sefydliadau hynny, a chlercod. Mae’r Panel hefyd yn ymgysylltu â chyrff aelodaeth perthnasol gan gynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Un Llais Cymru a Chymdeithas Clercod Cynghorau Lleol. Mae'n gwneud hyn trwy ystod o gyfarfodydd sydd, ar hyn o bryd, yn parhau i gael eu cynnal ar-lein yn bennaf. Mae’r Panel wedi parhau â’r trafodaethau hyn. Maent yn rhoi cyfle i'r Panel archwilio barn am y trefniadau presennol, yr effaith y mae penderfyniadau'n eu cael ar unigolion, sut mae'r trefniadau'n gweithredu'n ymarferol ac unrhyw faterion neu bryderon y mae unigolion am eu codi. Maent hefyd wedi rhoi cyfle i drafod sefyllfaoedd sy'n dod i'r amlwg y mae'r Panel wedi eu hystyried wrth wneud penderfyniadau.

Cafodd yr adroddiad drafft ei gyhoeddi’n eang ac anogwyd aelodau’r cyhoedd i ddarparu adborth gwerthfawr, ac maent wedi gwneud hyn ac rydym yn ei groesawu. Eleni, cafodd y Panel gyfle i feithrin cysylltiadau â grŵp ehangach o randdeiliaid mewn tri digwyddiad a gweithdy “Amrywiaeth mewn Democratiaeth” gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r Panel hefyd yn ystyried adborth ar ôl cyhoeddi’r Adroddiad Blynyddol yn y flwyddyn flaenorol. Mae'n ymddangos bod y newidiadau a wnaed yn Adroddiad y llynedd, yn enwedig y codiad yn y cyflog sylfaenol, wedi cael derbyniad da gan randdeiliaid. Mae'r materion a godwyd gyda'r Panel i gyd yn canolbwyntio ar fanylion y Penderfyniadau, gan ofyn am arweiniad ar sut y dylid eu cymhwyso neu’n gofyn am eglurhad lle roedd testun yr Adroddiad yn aneglur.

Felly, mae'r Panel wedi cytuno i adolygu fformat a strwythur y prif Adroddiad ac i wneud gwell defnydd o wefan y Panel er mwyn darparu gwybodaeth a chanllawiau.

Mae gan y Panel ddyletswydd i osod taliadau sy'n deg ac sy'n annog a galluogi cyfranogiad democrataidd. Rhaid iddo hefyd ystyried a ydynt yn fforddiadwy ac yn dderbyniol.

Wrth wneud ei benderfyniadau ar gyfer yr Adroddiad hwn, ystyriodd y Panel ystod o feincnodau, gan gynnwys mynegeion blaenorol, cyfredol a rhagamcanol a ffigurau gwirioneddol a’r graddau a’r effaith hysbys ac a ragwelir o nifer o ffactorau economaidd a chymdeithasol. Roedd y rhain yn cynnwys amgylcheddau gwaith ar ôl Brexit a COVID a chostau byw, ynni ac argyfyngau hinsawdd.

### Ymgynghoriad ar yr Adroddiad Blynyddol drafft

Lluniodd y Panel adroddiad drafft a’i gyhoeddi ar 6 Hydref 2022 ar gyfer ymgynghoriad wyth wythnos a ddaeth i ben ar 1 Rhagfyr 2022.

Yn ogystal, fel rhan o'r broses ymgynghori, gwahoddwyd rhanddeiliaid i ateb pum cwestiwn gan ddefnyddio arolwg ar-lein neu drwy ateb e-bost. Cafwyd cyfanswm o 89 o ymatebion ar-lein, a chyflwynwyd 44 ar e-bost i flwch e-bost y Panel Annibynnol

ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Hoffai'r Panel ddiolch i bawb a gyfrannodd at yr ymgynghoriad. Ceir crynodeb o'r ymatebion yn adran 4.

Ar y cyfan, roedd yr ymatebion yn cefnogi penderfyniadau'r Panel ac felly nid oes unrhyw newidiadau wedi'u gwneud i'r Penderfyniadau terfynol. Mewn rhai mannau, cryfhawyd geiriad y Penderfyniadau i egluro meysydd ansicrwydd a godwyd yn yr ymgynghoriad. Roedd hyn yn bennaf yn ymwneud â nodi gallu'r aelodau, ar sail unigol, i optio allan o'u tâl neu ran ohono.

Yn ogystal, amlygodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad ambell faes y bydd y Panel yn eu hystyried yn eu blaenraglen waith ar gyfer y flwyddyn hon. Bydd y blaenraglen waith yn cael ei chyhoeddi ar wefan y Panel ddiwedd mis Mawrth.

Ar ôl ystyried y safbwyntiau a gafwyd mewn ymateb i'w ymgynghoriad, mae'r Panel nawr yn gwneud ei benderfyniadau terfynol.

**Penderfyniadau'r Panel ar gyfer 2023 i 2024**

**Cyflog sylfaenol i aelodau etholedig prif gynghorau - Penderfyniad 1**

Mae'r cyflog sylfaenol, sy'n cael ei dalu i bob aelod etholedig, yn dâl am y cyfrifoldeb o gynrychioli'r gymuned a chymryd rhan yn y gwaith craffu, rheoleiddio a swyddogaethau cysylltiedig llywodraethu lleol. Mae'n seiliedig ar swm sydd gyfwerth â thri diwrnod llawn yr wythnos. Mae'r Panel yn adolygu'r ymrwymiad amser hwn yn rheolaidd, ac ni chynigir unrhyw newidiadau ar gyfer 2023 i 2024.

Y llynedd, ailbennodd y Panel y cyflog sylfaenol i gyd-fynd ag Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE) 2020 a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Roedd hyn yn lleihau'r anghydbwysedd oedd wedi codi rhwng cyflog sylfaenol aelodau o brif gynghorau a chyflogau cyfartalog eu hetholwyr. Daeth y newid i rym o etholiadau lleol Mai 2022 ymlaen. Mae'r rhesymeg dros y cam arwyddocaol hwn i'w weld yn Adroddiad Blynyddol y llynedd ac mae papur esboniadol manwl yn nodi'r cyd-destun hanesyddol a'r dadansoddiad ar gael ar wefan y Panel.

Gan adeiladu ar y penderfyniad hwn, mae'r Panel wedi penderfynu, ar gyfer blwyddyn ariannol 1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2024, ei fod yn iawn i gadw cysylltiad rhwng cyflog sylfaenol cynghorwyr a chyflogau cyfartalog eu hetholwyr. **Bydd y cyflog sylfaenol yn cyd-fynd gyda thair rhan o bump o ASHE Cymru gyfan 2021, y ffigur diweddaraf sydd ar gael wrth ddrafftio. Y cyflog fydd £17,600. Bydd hyn yn gynnydd o 4.76% yn y cyflog sylfaenol.**

**Cyflogau a delir i aelodau Uwch, Dinesig a Llywyddol y prif gynghorau: Penderfyniad 2**

Bydd y cyfyngiad ar nifer y cyflogau uwch sy'n daladwy ("y cap") yn aros yn ei le. Yn etholiadau lleol 2022 fe wnaeth adolygiadau ffiniau newid nifer yr aelodau i rai cynghorau. Addasodd y Panel y cap cyflog uwch ar gyfer y cynghorau hyn yn ei Adroddiad Blynyddol 2022 i 2023. Gan nad oes newidiadau pellach ar gyfer 2023 i 2024, mae'r uchafswm o gyflogau uwch sy'n daladwy o fewn pob cyngor yn parhau fel y nodir yn Adroddiad 2022 i 2023.

Mae’r holl gyflogau uwch yn cynnwys y taliad cyflog sylfaenol. Mae'r gwahanol lefelau o gyfrifoldeb ychwanegol rhwng pob rôl yn cael ei gydnabod mewn fframwaith bandiau. Cafodd y fframwaith ei ddiwygio'r llynedd ar ôl adolygiad o wahaniaethau a chymaryddion marchnad. Does dim newidiadau i fandiau yn cael eu cynnig eleni. Yn gynnar y flwyddyn nesaf bydd y Panel yn casglu tystiolaeth gan y prif gynghorau i archwilio a yw'r llwyth gwaith aelodau etholedig wedi newid a sut y mae wedi newid.

Mae'r cynnydd sy’n gysylltiedig ag ASHE 2021 yn berthnasol i elfen rôl cyflogau Band 1 a Band 2 - arweinydd, dirprwy arweinydd ac aelodau gweithredol.

Er mwyn cwblhau gwaith y llynedd o ailalinio’r fframwaith, bydd y rheini sy’n derbyn cyflog Band 3 a Band 4 yn derbyn cynnydd bach i elfen rôl eu tâl a bydd elfen rôl taliad Band 5 yn parhau wedi’i rewi. Ni fydd y cynnydd mewn cyflog sylfaenol yn gymwys.
Felly, £66,000 fydd cyflog arweinydd y cyngor mwyaf (Grŵp A). Mae'r holl daliadau eraill wedi'u penderfynu wrth gyfeirio at hyn ac maent wedi'u nodi yn Nhabl 1.

**Tabl 1 – Cyflogau sy'n daladwy i aelodau Sylfaenol, Uwch, Dinesig a Llywyddol y prif gynghorau**

| **Disgrifiad** | **Tâl Cydnabyddiaeth** | | |
|---|---|---|---|
| | | | |
| **Aelodau etholedig o brif gynghorau** | | | |
| Cyflog sylfaenol (yn daladwy i bob aelod etholedig) | **£17,600** | | |
| Uwch-gyflogau (gan gynnwys y cyflog sylfaenol) | **Grŵp A** | **Grŵp B** | **Grŵp C** |
| **Band 1:** | | | |
| Arweinydd | £66,000 | £59,400 | £56,100 |
| Dirprwy Arweinydd | £46,200 | £41,580 | £39,270 |
| **Band 2:** | | | |
| Aelodau gweithredol | £39,600 | £35,640 | £33,660 |
| **Band 3:** | | | |
| Cadeiryddion Pwyllgorau (os ydynt yn cael tâl cydnabyddiaeth)<br>Pennaeth Dinesig<br>Aelod Llywyddol | £26,400 | | |
| **Band 4:** | | | |
| Arweinydd grŵp yr Wrthblaid Fwyaf | £26,400 | | |
| **Band 5:** | | | |
| Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol Eraill<br>Dirprwy Bennaeth Dinesig | £21,340 | | |
| Dirprwy Aelod Llywyddol – dim taliad rôl | £17,600 | | |

**Grŵp A:** Caerdydd, Rhondda Cynon Taf, Abertawe

**Grŵp B:** Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Sir Gaerfyrddin, Conwy, Sir y Fflint, Gwynedd, Casnewydd, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Powys, Bro Morgannwg, Wrecsam

**Grŵp C:** Blaenau Gwent, Ceredigion, Sir Ddinbych, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Torfaen, Ynys Môn

Nid oes unrhyw newidiadau pellach i'r taliadau a'r buddiannau a dalwyd i aelodau etholedig ac felly mae pob Penderfyniad arall o 2022 i 2023 yn dal i sefyll a dylid eu cymhwyso yn 2023 i 24, gan gynnwys y rhai sy'n cwmpasu:

- Teithio a chynhaliaeth;
- Gofal a chynhorthwy personol;
- Absenoldeb salwch;
- Cyd-bwyllgorau Corfforedig;
- Cynorthwywyr i'r Weithrediaeth;
- Cyflogau ychwanegol a threfniadau rhannu swyddi;
- Aelodau cyfetholedig

**Cyflogau ar gyfer Cyd-bwyllgorau Trosolwg a Chraffu – Penderfyniad 3**

Bydd cyflog cadeirydd Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu yn £8,800

Bydd cyflog Is-Gadeirydd yn £4,400.

Ni cheir unrhyw newidiadau eraill.

**Taliadau tuag at gostau a threuliau aelodau Cynghorau Cymuned a Thref; Penderfyniad 4**

Y llynedd fe wnaeth y Panel gynnal adolygiad mawr o'r fframwaith taliadau ar gyfer cynghorau cymuned a thref gan gynnal ymarfer ymgynghori cynhwysfawr gyda'r sector. Diweddarwyd y Fframwaith bryd hynny ac eleni mae'r Panel wedi penderfynu gwneud newidiadau cyfyngedig ond pwysig.

Mae'r Panel yn cydnabod bod pob aelod o gynghorau cymuned a thref o reidrwydd yn treulio amser yn gweithio o adref ar fusnes y cyngor. Roedd hyn yn wir cyn ac yn ystod COVID ac mae'n parhau. O ganlyniad, mae gan aelodau gostau domestig ychwanegol ac mae angen nwyddau traul swyddfa arnynt hefyd.

Mae'r Panel o'r farn na ddylai aelodau fod allan o boced am gyflawni eu dyletswyddau. Fodd bynnag, gall unigolyn wrthod derbyn y taliadau, neu ran o'r taliadau os ydynt yn dymuno hynny. Mae'n rhaid gwneud hyn yn ysgrifenedig ac mae'n fater i'r unigolyn. Mae'n rhaid i aelod o'r cyngor cymuned neu gyngor tref sy'n dymuno gwrthod taliadau ysgrifennu at ei swyddog priodol i wneud hynny. Rhaid i bob cyngor cymuned a thref sicrhau nad yw'n creu hinsawdd sy'n atal pobl rhag cael mynediad at unrhyw arian y mae ganddynt hawl iddo i'w cefnogi i gymryd rhan mewn democratiaeth leol. Dylai'r taliadau gael eu gwneud yn effeithlon ac yn brydlon.

**Ad-daliad ar gyfer y costau ychwanegol o weithio gartref**

Rhaid i bob cyngor dalu £156 y flwyddyn i'w haelodau (sy'n cyfateb i £3 yr wythnos) tuag at dreuliau ychwanegol (yn cynnwys gwresogi, goleuadau, pŵer a band eang) sy'n gysylltiedig â gweithio gartref.

**Ad-daliad am nwyddau traul**

Rhaid i gynghorau naill ai dalu £52 y flwyddyn i'w haelodau am gost nwyddau traul swyddfa sydd eu hangen i gyflawni eu rôl, neu fel arall rhaid i gynghorau alluogi aelodau i hawlio ad-daliad llawn am gost eu nwyddau traul swyddfa. Mae'n fater i bob cyngor wneud a chofnodi penderfyniad polisi mewn perthynas â phryd a sut y gwneir y taliadau a ph'un a ydynt yn cael eu talu'n fisol, bob blwyddyn neu fel arall. Dylai'r polisi hefyd ddatgan a ddylid adennill unrhyw daliadau a wneir i aelod sy'n gadael neu newid ei rôl yn ystod y flwyddyn ariannol, a sut i adennill.

**Canllawiau ar drethu**

Nid yw o fewn cylch gwaith nac awdurdod y Panel i ddarparu cyngor penodol ar faterion trethu. Mae modd cael cyngor gan Un Llais Cymru ac mae canllawiau ar gael ar wefan Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi.

Dylai'r £156 ddod o dan ddarpariaethau statudol adran 316A ITEPA: Deddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003 (legislation.gov.uk) a'r swm presennol y gellir ei dalu heb ddenu rhwymedigaeth treth yw £6 yr wythnos: Treuliau a buddion: Gweithio o adref: Treuliau a budd-daliadau gweithio gartref sydd wedi'u heithrio rhag treth - GOV.UK (www.gov.uk).

Mae lefel y taliadau wedi'u nodi yn Nhabl 2.

**Tabl 2 - Taliadau i Gynghorau Cymuned a Thref**

| **Math o daliad** | **Gofyniad** |
|---|---|
| **Grŵp 1** | **Etholaeth dros 14,000** |
| Taliad Costau Ychwanegol | Gorfodol ar gyfer pob Aelod |
| Uwch Rôl | Gorfodol - £500 ar gyfer 1 aelod; dewisol ar gyfer hyd at 7 |
| Maer neu Gadeirydd | Dewisol - Hyd at uchafswm o £1,500 |
| Dirprwy Faer neu Ddirprwy Gadeirydd | Dewisol - Hyd at uchafswm o £500 |
| Lwfans Presenoldeb | Dewisol |
| Colled Ariannol | Dewisol |
| Teithio a Chynhaliaeth | Dewisol |
| Costau Gofal neu Gynhorthwy Personol | Gorfodol |
| **Grŵp 2** | **Etholaeth 10,000 i 13,999** |
| Taliad Costau Ychwanegol | Gorfodol ar gyfer pob aelod |
| Uwch Rôl | Gorfodol ar gyfer 1 aelod; dewisol ar gyfer hyd at 5 |
| Maer neu Gadeirydd | Dewisol - Hyd at uchafswm o £1,500 |
| Dirprwy Faer neu Ddirprwy Gadeirydd | Dewisol - Hyd at uchafswm o £500 |
| Lwfans Presenoldeb | Dewisol |
| Colled Ariannol | Dewisol |
| Teithio a Chynhaliaeth | Dewisol |
| Costau Gofal neu Gynhorthwy Personol | Gorfodol |
| **Grŵp 3** | **Etholaeth 5,000 i 9,999** |
| Taliad Costau Ychwanegol | Gorfodol ar gyfer pob aelod |
| Uwch Rôl | Dewisol hyd at 3 aelod |
| Maer neu Gadeirydd | Dewisol - Hyd at uchafswm o £1,500 |
| Dirprwy Faer neu Ddirprwy Gadeirydd | Dewisol - Hyd at uchafswm o £500 |
| Lwfans Presenoldeb | Dewisol |
| Colled Ariannol | Dewisol |
| Teithio a Chynhaliaeth | Dewisol |
| Costau Gofal neu Gynhorthwy Personol | Gorfodol |
| **Grŵp 4** | **Etholaeth 1,000 i 4,999** |
| Taliad Costau Ychwanegol | Gorfodol ar gyfer pob aelod |
| Uwch Rôl | Dewisol hyd at 3 aelod |
| Maer neu Gadeirydd | Dewisol - Hyd at uchafswm o £1,500 |
| Dirprwy Faer neu Ddirprwy Gadeirydd | Dewisol - Hyd at uchafswm o £500 |
| Lwfans Presenoldeb | Dewisol |
| Colled Ariannol | Dewisol |
| Teithio a Chynhaliaeth | Dewisol |

| Math o daliad | Gofyniad |
| --- | --- |
| Costau Gofal neu Gynhorthwy Personol | Gorfodol |
| **Grŵp 5** | **Etholaeth llai na 1,000** |
| Taliad Costau Ychwanegol | Gorfodol ar gyfer pob aelod |
| Uwch Rôl | Dewisol hyd at 3 aelod |
| Maer neu Gadeirydd | Dewisol - Hyd at uchafswm o £1,500 |
| Dirprwy Faer neu Ddirprwy Gadeirydd | Dewisol - Hyd at uchafswm o £500 |
| Lwfans Presenoldeb | Dewisol |
| Colled Ariannol | Dewisol |
| Teithio a Chynhaliaeth | Dewisol |
| Costau Gofal neu Gynhorthwy Personol | Gorfodol |

| Rhif y Grŵp | Maint yr Etholaeth |
| --- | --- |
| Grŵp 1 | Etholaeth dros 14,000 |
| Grŵp 2 | 10,000 i 13,999 |
| Grŵp 3 | 5,000 i 9,999 |
| Grŵp 4 | 1,000 i 4,999 |
| Grŵp 5 | O dan 1,000 |

Nid oes unrhyw newidiadau pellach i'r taliadau a'r buddiannau a delir i aelodau etholedig ac felly mae pob Penderfyniad arall o 2022 i 2023 yn dal yn berthnasol, a dylid eu cymhwyso yn 2023 i 2024, gan gynnwys y rhai sy'n cynnwys:

- Taliadau am gyflawni uwch rolau;
- Cyfraniadau tuag at gostau gofal a chynhorthwy personol;
- Ad-daliadau am gostau teithio a chynhaliaeth;
- Iawndal am golled ariannol;
- Lwfans presenoldeb;
- Aelodau cyfetholedig

**Taliadau i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub: Penderfyniad 5**

Cafodd y tri pharc cenedlaethol yng Nghymru - Bannau Brycheiniog, Arfordir Sir Benfro ac Eryri eu ffurfio i warchod tirweddau ysblennydd a darparu cyfleoedd hamdden i'r cyhoedd. Arweiniodd Deddf yr Amgylchedd 1995 at greu Awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer pob parc.

Mae awdurdodau'r Parc Cenedlaethol yn cynnwys aelodau sydd naill ai'n aelodau etholedig a enwebwyd gan y prif gynghorau yn ardal y parc cenedlaethol neu'n aelodau a benodir gan Lywodraeth Cymru drwy'r broses Penodiadau Cyhoeddus. Caiff aelodau a benodir gan Lywodraeth Cymru ac aelodau sydd wedi'u henwebu gan y Cyngor eu trin yn gyfartal mewn perthynas â thaliadau.

Ffurfiwyd y tri gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru: Canolbarth a Gorllewin Cymru, Gogledd Cymru a De Cymru fel rhan o ad-drefnu Llywodraeth Leol yn 1996. Mae’r gwasanaethau hyn yn cynnwys aelodau etholedig sy'n cael eu henwebu gan y prif gynghorau o fewn pob ardal gwasanaeth tân ac achub.

Bydd y taliadau'n cynyddu o ganlyniad i'r codiad sy'n cael ei gynnig ar gyfer aelodau etholedig prif gynghorau. Felly, bydd codiad o 4.76% hefyd yn yr elfen cyflog sylfaenol.

Bydd y tâl i Gadeiryddion yn parhau i fod yn gysylltiedig ag uwch-gyflog Band 3 prif gynghorau. Felly ceir cynnydd bach yn elfen rôl eu taliad. Bydd Dirprwy Gyfarwyddwyr, Cadeiryddion Pwyllgorau a phobl mewn uwch-swyddi eraill yn parhau ar Fand 5. Felly, bydd elfen rôl eu taliad yn parhau wedi’i rewi. Bydd y cynnydd mewn cyflog sylfaenol yn gymwys. Mae manylion llawn am lefelau tâl i aelodau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub, wedi'u nodi yn Nhabl 3.

**Tabl 3 – Taliadau i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub**

| **Awdurdodau Parciau Cenedlaethol** | |
|---|---|
| Y cyflog sylfaenol ar gyfer aelod cyffredin | £4,964 |
| Cadeirydd | £13,764 |
| Dirprwy Gadeirydd (os penodir un) | £8,704 |
| Cadeirydd Pwyllgor neu uwch-swydd arall | £8,704 |
| | |
| **Awdurdodau Tân ac Achub** | |
| Y cyflog sylfaenol ar gyfer aelod cyffredin | £2,482 |
| Cadeirydd | £11,282 |
| Dirprwy Gadeirydd (os penodir un) | £6,222 |
| Cadeirydd Pwyllgor neu uwch-swydd arall | £6,222 |

Bydd pob Penderfyniad arall ar gyfer 2022 i 2023 yn dal yn berthnasol a dylid ei gymhwyso yn 2023 i 2024, gan gynnwys y rheini sy’n cwmpasu:

- Cyfraniadau tuag at gostau gofal a chynhorthwy personol;

- Ad-daliadau am gostau teithio a chynhaliaeth;
- Iawndal am golled ariannol;
- Aelodau cyfetholedig
- Cyfyngiadau ar dderbyn ad-daliadau dwbl pan fo aelod yn dal mwy nag un swydd.

## Adran 4: Ymgynghori: Crynodeb o’r Ymatebion

Lluniodd y Panel adroddiad drafft a’i gyhoeddi ar 6 Hydref 2022 ar gyfer cyfnod ymgynghori o wyth wythnos, a ddaeth i ben ar 1 Rhagfyr 2022.

Anfonwyd y ddolen i’r wefan a fersiwn pdf o'r adroddiad drafft at:

- Un Llais Cymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol
- Prif gynghorau
- Awdurdodau Tân ac Achub
- Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol
- Cynghorau Cymuned a Thref.

**Penderfyniad 1: Cynnydd cyflog sylfaenol**
Nid oedd pob Cyngor wedi rhoi sylwadau. Gofynnodd tri a oedd hi’n iawn codi cyflog aelodau yn ystod yr argyfwng costau byw presennol. Fodd bynnag, roedd y rhain yn derbyn bod angen ystyried amgylchiadau personol aelodau ac felly y dylai fod yn fater personol i aelodau benderfynu drostynt eu hunain a ydyn nhw’n derbyn y codiad cyflog ai peidio neu’n dewis peidio. Ystyriodd y Panel yr adborth hwn, ac er ei fod yn ymwybodol o'r effaith gyffredinol ar gyllidebau cynghorau, cytunodd fod y cynnydd mewn cyflog sylfaenol yn ffactor pwysig o ran annog a chefnogi grŵp amrywiol o bobl i sefyll etholiad.

**Penderfyniad 2: Uwch Gyflogau**
Codwyd dau fater allweddol gan randdeiliaid; yn gyntaf a yw lefel y tâl yn cydnabod yn ddigonol gyfrifoldebau cynyddol aelodau prif gynghorau ac yn ail a ddylid adolygu'r uchafswm presennol o gyflogau uwch. Nododd y Panel y pwyntiau hyn a bydd yn ystyried a ddylai'r maes hwn fod yn ganolbwynt i'r cynllun gwaith yn y dyfodol.

**Penderfyniad 3: Cyflogau Cyd-bwyllgorau Trosolwg a Chraffu**
Ni chafwyd sylwadau mewn perthynas â chyflogau Cyd-bwyllgorau Trosolwg a Chraffu.

**Penderfyniad 4: Taliadau tuag at gostau a threuliau aelodau Cynghorau Cymuned a Thref**
Fe wnaeth dros hanner yr ymatebion amlygu pryder fod y taliadau'n orfodol ac nad oedd eu Cyngor am gynyddu eu praesept i dalu'r costau hyn. Doedd y ffaith nad oedd yr Adroddiad yn ailddatgan y gall aelodau ddewis gwrthod eu hawl i daliadau ddim o gymorth. Fodd bynnag, roedd ymatebion eraill yn cefnogi’r taliadau.

Roedd deg y cant o’r ymatebion a dderbyniwyd yn mynegi pryder ynghylch costau gweinyddu ac roedd pymtheg o’r ymatebion yn codi cwestiynau am y driniaeth gywir at ddibenion treth. Gofynnodd un clerc hefyd a fyddai’r taliadau y mae aelodau yn eu derbyn yn cael eu cyhoeddi'n gyffredinol, yn debyg i’r modd y rhoddir cyhoeddusrwydd i’r cyfraniad at gostau gofal a chymorth personol.

Roedd sylwadau eraill yn nodi'r angen i annog teithio "gwyrdd" a holodd un a oedd angen taliadau ar gyfer swyddi uwch.

Ystyriodd y Panel yr ymatebion hyn a chytunodd i bwysleisio'r polisi ar optio allan fel unigolyn yn yr Adroddiad Terfynol ac i ddarparu dolen i wefannau defnyddiol Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi. Bydd y Panel yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i wella cymorth a chyngor i Gynghorau Cymuned a Thref.

**Penderfyniad 5: Taliadau i Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub**

Ni wnaed sylwadau mewn perthynas â thaliadau i aelodau o Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub.

Yn ogystal, fel rhan o'r broses ymgynghori, gwahoddwyd rhanddeiliaid i ateb pum cwestiwn drwy arolwg ar-lein neu drwy e-bost. Derbyniwyd cyfanswm o 89 ymateb ar-lein, a chyflwynwyd 48 drwy e-bost i flwch e-bost y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

**Cwestiwn 1**

Mae'r Panel wedi parhau i ddefnyddio'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE) a gyhoeddir gan y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol fel y meincnod ar gyfer pennu cyflog sylfaenol aelodau etholedig prif gynghorau. Mae cynnydd cymesur cyfatebol wedi'i gynnig i aelodau'r Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a'r Awdurdodau Tân ac Achub. Mae'r Panel wedi parhau i gyfeirio at yr Arolwg ASHE diweddaraf a gyhoeddwyd yn 2021. Ydych chi'n cytuno y dylai'r elfen cyflog sylfaenol fod yn gysylltiedig â data ASHE 2021?

Ymatebion

Roedd 90% o'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn yn cytuno y dylai'r Panel gyfeirio at yr elfen cyflog sylfaenol yn nata ASHE 2021. Roedd 3% yn anghytuno ac roedd 7% heb farn am y cwestiwn hwn

**Cwestiwn 2**

Mae'r Panel wedi gwneud newidiadau i sut y caiff costau a threuliau eu talu i aelodau cynghorau cymuned a thref. Ydych chi'n cytuno ag ychwanegu'r elfen "nwyddau traul"?

Ymatebion

Roedd 72% yn cytuno gydag ychwanegu'r elfen 'nwyddau traul', ac roedd 25% yn anghytuno gyda'r taliad ychwanegol hwn.

Y thema fwyaf cyffredin yn yr atebion a roddwyd i gwestiwn dau oedd a oedd y taliad hwn bellach yn orfodol neu a oedd y taliad yn ddewisol a bod gan Gynghorwyr y dewis i'w wrthod. Gofynnwyd yr un cwestiwn am y taliad o £156.

**Cwestiwn 3**

Bydd y Panel yn casglu tystiolaeth gan brif gynghorau i edrych ar p'un a yw llwyth gwaith aelodau etholedig wedi newid, a sut y mae wedi newid, i lywio Penderfyniadau'n y dyfodol. Ydych chi'n fodlon y dylai'r Panel gynnwys yr adolygiad

hwn yn ei gynllun gwaith ar gyfer y dyfodol ac adeiladu sylfaen dystiolaeth i gefnogi penderfyniadau?

Ymatebion
Roedd 97% o'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn yn cytuno.

Roedd mwyafrif yr atebion yn tynnu sylw at y gwaith ychwanegol yr oedd aelodau etholedig nawr yn ei wneud yn eu rôl.

Croesawodd cynghorau cymuned a thref hyn gan y byddai'n cydnabod faint o waith y mae'r sector yn ei wneud.

**Cwestiwn 4**
Rydym wedi lleihau maint yr adroddiad yn sylweddol eleni er mwyn canolbwyntio ar benderfyniadau allweddol a wnaed, ac yn bwriadu gwneud mwy o ddefnydd o'r wefan i roi arweiniad hawdd i ddefnyddwyr. Mae'r dull hwn hefyd yn cyd-fynd â'n hymdrechion i barchu'r heriau sy'n ein hwynebu wrth ddiogelu ein planed.

Sut y byddech chi'n dymuno cael gafael ar wybodaeth ac arweiniad gan y Panel? (dewiswch bob un sy'n berthnasol)

Ymatebion

| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno gyda dolenni at ganllawiau manwl | 84 |
| Canllawiau hawdd eu defnyddio | 71 |
| Cwestiynau Cyffredin | 49 |
| Gwefan | 54 |
| Y Cyfryngau Cymdeithasol | 16 |
| Digwyddiadau gwybodaeth | 25 |
| Arall | 14 |

Os arall, rhowch fanylion:

Croesawyd yr adroddiad cryno arfaethedig, y canllawiau manwl a'r cwestiynau cyffredin. Roedd atebion eraill yn cynnwys seminarau, cyfarfodydd ar-lein a digwyddiad gwybodaeth.

Ydych chi wedi profi unrhyw heriau wrth gael gafael ar ein canllawiau a'n gwybodaeth ar ein gwefan neu wrth geisio eu deall? Rhowch wybod i ni sut y gallwn wneud pethau'n haws i chi.

Bydd adroddiad symlach a dogfen ganllawiau ar wahân yn helpu rhanddeiliaid i ddod o hyd i'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt.

Ni wnaeth y rhanddeiliaid brofi unrhyw heriau wrth gael gafael ar y canllawiau a'r wybodaeth ar y wefan, nac wrth geisio eu deall.

**Cwestiwn 5**
Mae’r panel yn bwriadu cynnal cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu â’r holl randdeiliaid perthnasol dros y flwyddyn nesaf fel rhan o’r gwaith o ddatblygu ei gynlluniau ar gyfer y dyfodol ac adeiladu ei dystiolaeth a’i strategaeth ymchwil.

Oes gennych chi unrhyw sylwadau a fyddai’n helpu’r Panel i gynnal y digwyddiadau ymgysylltu hyn?

Er enghraifft, a ydych chi’n ffafrio polau ar-lein, cynnal digwyddiadau ymgysylltu, yn rhithiol neu wyneb yn wyneb, pa grwpiau ddylai gymryd rhan, sut allwn ni ymgysylltu ag ymgeiswyr posibl ac ati.

<u>Ymatebion</u>
Yr atebion mwyaf poblogaidd a roddwyd i'r cwestiwn hwn oedd:

- polau ar-lein
- cyfarfodydd rhithiol
- cyfarfodydd wyneb yn wyneb

Roedd cymysgedd o gefnogaeth i ddigwyddiadau ar-lein ac wyneb yn wyneb. Atebodd rhai gan gynnig y dylai’r Panel gynnal digwyddiadau ymgysylltu rhanbarthol fel y gallai sawl Cyngor fynychu ar yr un pryd. Awgrymodd sylwadau eraill a ddaeth i law y byddai'r digwyddiadau hyn yn helpu i drafod unrhyw faterion mewn manylder gyda'r Panel ac y byddai’r Panel yn cael safbwyntiau ehangach ac adborth mwy cynhwysfawr ar unrhyw gynigion.

Fe wnaeth Un Llais Cymru gynnig cefnogaeth i'r Panel gyda’r gwaith o drefnu unrhyw ddigwyddiadau yn y sector Cyngor Cymuned a Thref.

**Crynodeb o Benderfyniadau:**

Penderfyniad 1:
Bydd lefel sylfaenol cyflog aelodau etholedig prif gynghorau yn cael ei osod ar £17,600.

Penderfyniad 2:
Bydd cyflog arweinydd y cyngor mwyaf (Grŵp A) yn £66,000. Mae'r holl daliadau eraill wedi'u penderfynu gan ystyried hyn ac maent wedi'u nodi yn Nhabl 1.

Penderfyniad 3:
Bydd cyflog cadeirydd Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu yn £8,800.

Bydd cyflog is-gadeirydd yn £4,400.

Penderfyniad 4:
Bydd aelodau Cynghorau Cymuned a Thref yn cael taliad o £156 y flwyddyn (sydd gyfystyr â £3 yr wythnos) tuag at gostau ychwanegol (gan gynnwys gwresogi, goleuadau, pŵer a band eang) sy'n gysylltiedig â gweithio gartref. Rhaid i gynghorau hefyd naill ai dalu £52 y flwyddyn am gost nwyddau traul y swyddfa sydd eu hangen er mwyn gwneud eu swydd, neu fel arall, rhaid i gynghorau alluogi aelodau i hawlio ad-daliad llawn am gostau eu nwyddau traul swyddfa.

Penderfyniad 5:
Mae tâl sylfaenol aelodau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub wedi cynyddu 4.76%. Caiff yr holl daliadau eu nodi yn Nhabl 3.

Penderfyniad 6:
Mae'r holl Benderfyniadau eraill a nodir yn Adroddiad Blynyddol 2022 i 2023 y Panel yn parhau'n ddilys a dylid eu cymhwyso.

Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol
Ystafell N.03
Y Llawr Cyntaf
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 0300 0253038
E-bost irpmailbox@llyw.cymru

Mae'r Adroddiad a gwybodaeth arall am y Panel a'i waith ar gael ar ein gwefan yn:

Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 24 Mawrth 2023 |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Lisa Jones, Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd |
| **Awdur yr adroddiad** | Steve Price, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| **Teitl** | Adnoddau ar gyfer Craffu |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu newidiadau i'r trefniadau cefnogi ar gyfer y swyddogaeth Graffu.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gael Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i oruchwylio gwasanaethau democrataidd y Cyngor.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Fod y Pwyllgor yn nodi'r materion a godwyd yn yr adroddiad ac yn gwneud sylwadau yn unol â hynny.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 mae gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd rôl mewn adolygu "pa mor ddigonol yw'r ddarpariaeth gan yr awdurdod o ran staff, llety ac adnoddau eraill i gyflawni swyddogaethau gwasanaethau democrataidd'.

4.2. Mae rôl y Pwyllgor yn gysylltiedig â rôl Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd sy'n cynnwys

- hyrwyddo rôl y Pwyllgorau Craffu;

- darparu cefnogaeth a chyngor i'r pwyllgorau craffu ac aelodau'r pwyllgorau hynny; a
- darparu cefnogaeth a chyngor mewn perthynas â'r Pwyllgorau Craffu i aelodau eraill o'r Cyngor; i'r Cabinet ac i swyddogion.

4.3 Cyn 'Adolygiad Effeithlonrwydd y Gwasanaethau Democrataidd' yn 2010 roedd y Cyngor yn cyflogi 2 swyddog Craffu llawn amser a lleihawyd hyn i 1 swydd gan yr Adolygiad.

4.4 Ystyriwyd adnoddau Craffu yn Sir Ddinbych yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru (erbyn hyn Archwilio Cymru) ym Mehefin 2018 sef 'Trosolwg a Chraffu - addas i'r Dyfodol? – Cyngor Sir Ddinbych'. Canmolodd Swyddfa Archwilio Cymru swyddogaeth Graffu y Cyngor ond roedd yn argymell fod y Cyngor yn gwneud yr isod:

*'Adolygu digonolrwydd trefniadau cefnogi o ran faint a'r math o gefnogaeth y gallai pwyllgorau trosolwg a chraffu fod eu hangen'.*

4.5 Yn aml mae angen i bwyllgorau craffu ddefnyddio adolygiadau a gwaith grwpiau tasg a gorffen i graffu materion sy'n rhy gymhleth i ymdrin â nhw drwy ymagwedd 'adroddiad i'r pwyllgor' yn unig. Gall rhain fod yn ddwys o ran adnoddau a gallant olygu gweithio gyda sefydliadau partner a chyfranogwyr allanol eraill.

4.6 Mae graddfa a chymhlethdod trefniadau llywodraethu ar y cyd a rhanbarthol wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diweddar. Mae'r rhain yn cynnwys y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar y cyd (y mae yna Gyd-bwyllgor Craffu ar ei gyfer), Bargen Dwf Gogledd Cymru (a gaiff ei weinyddu gan bartneriaeth Uchelgais Gogledd Cymru sy'n cynnwys awdurdodau lleol a sefydliadau addysgol), Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru (sydd ar hyn o bryd â rolau cludiant strategol a chynllunio strategol) a chyd gonsortiwm gwella ysgolion rhanbarthol Gogledd Cymru GwE.

4.7 Mae'r Cyngor wedi cydnabod yr angen i ddychwelyd i'w sefyllfa yn 2010 lle'r oedd dau Swyddog Craffu ac mae Karen Evans nawr wedi ei phenodi i ymuno â Rhian Evans fel Cydlynydd Craffu.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Cynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Nid yw'r adroddiad yn cyfrannu'n uniongyrchol at y Cynllun Corfforaethol.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Mae'r costau cefnogi ar gyfer y swyddogaeth Graffu wedi eu cynnwys o fewn y cyllidebau presennol.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen Asesiad o'r Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Dim. Mae'r adroddiad hwn er gwybodaeth i'r Pwyllgor.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Amherthnasol.

## 10. Beth yw'r risgiau ac a oes unrhyw beth y gallwn ni ei wneud i'w lleihau?

10.1 Mae'r Cyngor wedi mynd i'r afael â'r risgiau a nodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru drwy adolygu pa mor ddigonol yw'r trefniadau cefnogi ar gyfer Craffu.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 24 Mawrth 2023 |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Lisa Jones, Pennaeth Dros Dro - Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd |
| **Awdur yr adroddiad** | Steve Price, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| **Teitl** | Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Bwriad yr adroddiad hwn yw hwyluso trafodaeth ac adborth ar y meysydd o fewn cylch gwaith y pwyllgor, ac i gadarnhau eitemau rhaglen ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. A yw'n briodol i'r pwyllgor adolygu ei raglen gwaith i'r dyfodol ym mhob cyfarfod. Gall yr eitemau canlynol fod yn briodol (nid yw'r rhestr hon yn un gyflawn):

- Hyfforddiant a datblygu aelodau
- Trefniadau cefnogi er mwyn i aelodau gyflawni eu rolau
- Cefnogaeth ar gyfer swyddogaeth Graffu y Cyngor
- Adolygu'r adnoddau sydd ar gael i aelodau (er enghraifft, llety a thechnoleg)
- Mentrau, deddfwriaeth ac ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ar faterion democratiaeth leol, gan gynnwys amrywiaeth, cydraddoldeb a chyfranogi
- Tâl Aelodau

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor yn ystyried y wybodaeth yn yr adroddiad hwn ac yn cadarnhau ei raglen gwaith i'r dyfodol ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.

# 4. Manylion yr adroddiad

## Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

4.1 Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, penodir Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd gan y Cyngor llawn. Ym mis Medi 2022, penodwyd y Cynghorydd Martyn Hogg fel Cadeirydd y Pwyllgor.

4.2 Newidiodd canlyniad is-etholiad y Rhyl Tŷ Newydd gydbwysedd gwleidyddol y Cyngor, ac er mai cymharol fach oedd yr effaith, roedd hynny'n golygu fod Grŵp y Blaid Werdd – Grŵp y Cynghorydd Hogg – wedi colli ei sedd ar y pwyllgor. O ganlyniad, bydd gofyn i'r Cyngor benodi Cadeirydd newydd ymhlith aelodau'r pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf. Dan y Mesur, ni all y Cadeirydd fod yn aelod o grŵp sydd ag aelodau sy'n gwasanaethu ar y Cabinet. Gan fod Grŵp y Blaid Werdd yn colli ei sedd ar y pwyllgor, ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, bydd angen i'r Cadeirydd newydd fod yn un o blith y Grwpiau Annibynnol neu Geidwadol.

4.3 Cafodd y Cynghorydd Brian Jones ei ethol i'r Cyngor yn yr is-etholiad ac ymunodd hefyd â'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

## Amseroedd a Dulliau Cynnal Cyfarfodydd

4.4 Rhoddodd y Cynghorwyr eu barn ar amseroedd cyfarfodydd mewn arolwg a adroddwyd i'r Cyngor ar 31 Ionawr 2023. Cafodd cwestiynau'r arolwg eu cadarnhau gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Ymatebodd 35 o'r 47 aelod (roedd sedd wag gan y Cyngor ar y pryd) a dyma'r prif ganfyddiadau:

- Mae'n well gan y mwyafrif o aelodau gyfarfodydd bore.
- Nid yw mwyafrif yr aelodau eisiau gweld amseroedd cyfarfodydd yn cylchdroi.
- Nododd yr aelodau mai gyda'r nos yw'r amser mwyaf anodd iddynt fynychu cyfarfodydd.

4.5 O ganlyniad i farn yr aelodau, ni wnaeth y Cyngor unrhyw newidiadau i amseroedd presennol cyfarfodydd.

4.6 Roedd yr arolwg hefyd yn holi barn a phrofiadau aelodau ynglŷn â'r modd y cynhelir cyfarfodydd a cheir crynodeb o'r canlyniadau isod.

- Wrth fynychu cyfarfod wyneb yn wyneb, roedd mwyafrif bychan yn ffafrio lleoliad, gyda nifer yn nodi mwy nag un lleoliad. Cyfeiriodd aelodau 8 gwaith at Ruthun, 7 at y Rhyl; 6 at Ddinbych a 3 at Brestatyn.
- Nid yw'r mwyafrif o aelodau yn cael anawsterau wrth fynychu cyfarfodydd ar-lein. O'r rhai oedd yn cael anawsterau, 'problemau technegol' oedd yr anhawster mwyaf cyffredin a nodwyd.
- Nid yw'r mwyafrif o aelodau yn cael problemau wrth fynychu cyfarfodydd sy'n rhai wyneb yn wyneb yn unig. O'r rhai sydd, cael digon o amser i ffwrdd o'r gwaith yw'r broblem fwyaf.

4.7 Mae'r Cyngor yn cynnal nifer o'i gyfarfodydd fel cyfarfodydd hybrid, ble gall aelodau ddewis mynychu dros y we neu wyneb yn wyneb. Datblygwyd cyfarfodydd hybrid o gyfarfodydd dros y we a gyflwynwyd fel anghenraid yn ystod pandemig COVID-19 ac yna fe'u gwnaed yn barhaol ar gyfer rhai cyfarfodydd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

4.8 Datblygwyd polisi presennol y Cyngor ar gyfer cynnal cyfarfodydd gan weithgor aelodau a chafodd ei adolygu gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd cyn ei fabwysiadu gan y Cyngor llawn ym mis Rhagfyr 2021.

4.9 Mae'r Arweinwyr Grwpiau wedi cytuno i sefydlu gweithgor aelodau ar gyfer adolygu sut mae cyfarfodydd aelodau yn cael eu cynnal. Bydd y gweithgor yn ystyried y fframwaith cyfreithiol a'r dewisiadau sydd ar gael er mwyn cyflwyno unrhyw argymhellion i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a'r Cyngor llawn.

4.10 Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, disgwylir am enwebiadau gan y grwpiau gwleidyddol i fod yn rhan o'r gweithgor.

## Diogelwch a Gofal Personol Aelodau

4.11 Roedd cyfarfod diwethaf y Pwyllgor yn ystyried materion yn ymwneud â 'diogelwch a gofal personol aelodau'. Roedd adroddiad y Pwyllgor yn cynnwys nifer o ddolenni i adnoddau'n ymwneud â diogelwch personol ar gyfer aelodau ac yn cyfeirio at argaeledd y gefnogaeth a'r cyngor ar ddiogelwch personol o fewn y Cyngor.

4.12 Argymhellodd y Pwyllgor y dylid cynnal sesiwn hyfforddi ar ofal personol a diogelwch. Yn dilyn hyn, anfonwyd manylion at bob cynghorydd ynghylch sut i gael mynediad at weminar a drefnwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol ar ddiogelwch personol i

gynghorwyr, a gynhaliwyd ar 21 Chwefror. Roedd y weminar am ddim i gynghorwyr trwy ddefnyddio cod hyrwyddo a oedd yn hepgor ffi'r weminar ar gyfer mynychwyr.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Cynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Nid yw'r adroddiad yn cyfrannu'n uniongyrchol at y Cynllun Corfforaethol.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Nid oes unrhyw oblygiadau o ran cost o ystyried y rhaglen gwaith i'r dyfodol a'r diweddariadau sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen Asesiad o'r Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Amherthnasol

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Nid oes angen datganiad gan y Prif Swyddog Cyllid ar gyfer yr adroddiad hwn.

## 10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Ni nodwyd unrhyw risgiau penodol o ystyried yr adroddiad hwn. Mae adolygu'r rhaglen gwaith i'r dyfodol a gwybodaeth gysylltiedig yn nodwedd bwysig o swyddogaeth y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Gwasaethau Democrataidd

| Cyfarfod | Eitem (disgrifiad/teitl) | | Pwrpas yr adroddiad | Awdur | Dyddiad a ychwanegwyd |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| Cyfarfod Arbennig – Mis Mehefin 2023 (i'w gadarnhau) | 1 | Hyfforddiant a Hyfforddiant Gorfodol i Aelodau | Gofyn am farn y Pwyllgor a gwneud argymhellion i'r Cyngor.<br>Adolygu adnoddau e-ddysgu ar gyfer aelodau. | Steve Price | Chwefror 2023 |
| | 2 | Adolygiadau Datblygiad Personol | Hysbysu'r pwyllgor ar Adolygiadau Datblygiad Personol ar gyfer Aelodau. | Steve Price | Medi 2022 |
| | 3 | (Yn amodol ar Gynnydd): Gweithgor Aelodau ar Sut y Cynhelir Cyfarfodydd | Ystyried polisi'r Cyngor ar gyfer cynnal cyfarfodydd rhithwir, hybrid ac wyneb yn wyneb. | I'w gadarnhau | Chwefror 2023 |
| | | | | | |
| | | | | | |
| 29 Medi 2023 | 1 | Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru). | Derbyn gwybodaeth am oblygiadau'r Ddeddf. | I'w gadarnhau | Medi 2022 |
| | 2 | Archif ar gyfer gweddarllediadau | Adolygiad o'r trefniadau ar gyfer archifo gweddarllediadau'r Cyngor. | Steve Price | Chwefror 2023 |
| | | | | | |

Diweddarwyd SP – 20 Mawrth 2023

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag